

Tasg 2

Storïau newydd

Rydych chi'n mynd i weithio mewn grŵp o dri i ysgrifennu dwy stori wir ac un stori ffug. Yna, byddwch chi'n darllen y straeon i'r dosbarth a bydd rhaid i'r dosbarth ddyfalu pa stori yw'r un ffug.

Dilynwch y camau hyn:

1. Mewn grŵp, trafodwch y tair stori. Gallwch chi sôn am:

- rywun enwog
- byd chwaraeon (e.e. camp newydd / camp eithafol / hanes pencampwr)
- digwyddiad hanesyddol
- digwyddiad yn y dyfodol
- unrhyw beth!

2. Trafodwch pwy fydd yn ysgrifennu pa stori.

3. Yn unigol, cynlluniwch y darn rydych chi'n mynd i ysgrifennu.

4. Ysgrifennwch y darn. Defnyddiwch gyfrifiadur a chadwch y gwaith. Ydych chi'n gallu dod o hyd i luniau i fynd gyda'r darn? Bydd hyn yn gwneud i'r stori ymddangos yn fwy credadwy.

5. Darllenwch y darnau i'ch gilydd mewn grŵp. Ydych chi'n gallu gwella'r darnau? Os ydych chi, ewch ati i wella'r drafft ar y cyfrifiadur.

6. Fesul grŵp, darllenwch y darnau i'r dosbarth. Rhaid i'r dosbarth bleidleisio - pa storïau sy'n wir a pha storïau sy'n ffug.

Tybed faint o grwpiau fydd yn gallu twyllo'r dosbarth gyda'u straeon ffug?